

Cyngor Cymuned Betws-y-Coed
Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 13th Dachwedd 2017

Presennol Gareth Wynne Cadeirydd, Gwawr Jones, Marion Bettenev, Siân Godbert, Terry Bullock, Nick Corney, Janet Charlton, Cyng Elisabeth Roberts Caerwyn Roberts, Clerc.

Ymddiheuriadau ---

Datgan diddordeb – Dim datganiad

Cofnodion

Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod 13eg Dachwedd 2017.

Materion yn codi

(1)Yr Heddlu

Nid oedd yr heddlu'n bresennol.

[1.1] Creu Mynedfa Newydd i'r Neuadd Goffa

Dywedodd y clerc fod y gwaith wedi eu gwblhau.

[1.2] Sedd Wag y Cyngor

Penderfynwyd gohirio'r mater hyd nes dyddiad diweddarach.

[1.3] Lleoliad ar Gyfer Hen Giosg Coch BT

Yn dilyn i'r Ystâd Ancaster wrthod i'r ciosg gael ei leoli mewn man amlwg yng nghae Llan, penderfynwyd ei osod ymhen y ffens newydd ar y cae.

[1.4] Casglu Arian o Wely'r Afon/Rhaeadr Ewynnol

Penderfynwyd ystyried y mater eto pan fydd lefel y dŵr yn isel.

[1.5] Adnewyddu Biniau Cwn

Dywedodd y Cyng Elisabeth Roberts bod yr anfoneb am osod dau o finiau cwn o'r newydd yng Nghae Llan yn cael sylw gan y Cyngor Sir.

[1.6] Tai Fforddiadwy Pentre' Du.

Eglurodd y Cyng Elisabeth Roberts bod cynnig o dri mynediad i briffordd yr A5 o dan sylw gan Asiantaeth Briffyrdd Gogledd Cymru

[1.7] Ffordd yn Arwain i fyny heibio Moduron Betws/Arwydd fod y Ffordd yn Anaddas i loriau Trwm

Nodwyd bod y mater yn parhau

[1.8] Banerau Hysbysebu/Posterï Surf Snowdonia/ Zip World

Cyfeiriodd y clerc at ganllawiau gan APCE bod rhaid i faneri fod yn is na 3.6m o'r ddaear a dim mwy na 4.5m yn gyfan gwbl.

Y brif Agenda

[2.1] Materion Cynllunio

Dymchwel yr estyniad unllawr ynghyd a'r adeiladau allanol presennol, ac adeiladu estyniad deulawr ac unllawr newydd. Coed-y-Fron , Ffordd Rheithordy, Betws-y-Coed
Penderfynwyd nad oedd gwrthwynebiad i'r cais uchod.

[2.2] Materion Ariannol

[a] Cymeradwywyd y taliadau ar derbyniadau [a ddsbarthwyd] a wnaed yn ystod mis Hydref 2017

[b] Y Rhaeadr Ewynnol - Nodwyd y ffigyrau [a ddsbarthwyd] ar gyfer cyfnodau cymharol i ddiwedd Hydref 2017.

[c] Adroddiad yr Archwiliwr Allanol.

Cyfeiriodd y clerc at y sylwadau canlynol gan yr archwiliwr;

[1] Ni fu i'r Cyngor gymeradwyo Adran 1 y Ffurflen Flynyddol erbyn dyddiad cau statudol sef 30ain Fehefin mewn cyfarfod llawn o'r Cyngor. Y clerc i ofalu fod cymeradwyaeth y Cyngor yn gyflawn yn y dyfodol

[2] Mater Bach - Nid yw'r ffigyrau cymharol a ddatgelir yn adran 1 y ffurflen flynyddol yn cytuno ar ffurflen flynyddol a archwiliwyd ar gyfer y flwyddyn ddaeth i ben 31ain Fawrth 2016. Nodwyd bod yr archwiliwr wedi adolygu'r newidiadau a'i fod wedi cadarnhau eu bod yn gywir.

[3] Adolygiad o'r Gyllideb

Cymeradwywyd y ddogfen yn adolygu'r gyllideb i ddiwedd Tachwedd a baratowyd gan y clerc.

[2.3] Mr Steffan Richards Llyfrgellydd Cymunedol/Prosiect Caban

Croesawyd Mr Steffan Richards i'r cyfarfod ac amlinellodd gynnig ar gyfer prosiect Caban a fyddai'n bartneriaeth rhwng y Gwasanaeth Llyfrgell ar CAB. Bwriad y prosiect yw cynnig gwasanaethau sef Ffrindiau Cartref, Adrodd Straeon a hefyd Gwasanaethau Achlysurol. Bydd cais loteri yn cael ei wneud i ariannu'r prosiect.

Y clerc i anfon llythyr o gefnogaeth.

[2.4] Polisi Bagiau Tywod Cyngor BS Conwy

Nodwyd na fyddai'r Cyngor Sir yn darparu bagiau tywod i unrhyw eiddo preifat na machnasol yn ystod llifogydd a hefyd ni chaniateir i fagioau gael eu casglu o iard y Cyngor.

Cytunodd Siân Godbert I wneud ymholiadau ynglŷn â hwylustod a chost bagiau tywod.

[2.5] Biniau Ailgylchu Ffordd yr Orsaf

Cyfeiriodd y clerc at lythyr gan y Cyngor Sir yn dweud o ganlyniad camddefnyddio'r biniau trwy eu llenwi hefo cardboard, bod rhaid eu symud.

[2.6] Adolygiad Arwyddion Twristiaeth/Dyddiad Cau 19eg Ionawr 2018

Cyfeiriodd y clerc at ohebiaeth oddiwrth Swyddog Diwylliant a Threftadaeth yn ceisio gwybodaeth ynglŷn ag arwyddion twristiaeth yn y gymuned. Cytunodd y Cyng Gareth Wynne a Nick Corney i gysylltu ynglŷn â'r mater. Y clerc i anfon copi o'r holiadur i'r aelodau.

[2.7] Llythyr Oddiwrth Mr O Johnson

Nodwyd llythyr gan Mr Johnson yn mynegi pryder ynlgun a'r creigiau peryglus ar lan yr afon ger Pont-y-Pair. Dywedodd y clerc iddo anfon y llythyr ymlaen i sylw'r Cyngor Sir.

[2.8] Materion Amrywiol

Y clerc i ddilyn y materion canlynol ymlaen;

[a] Dim golau ar y golofn gyntaf wrth droi i mewn I Ffordd yr Orsaf.

[b] Y manholes gyferbyn a Three Gables a Cunninghams angen sylw.

Cadeirydd _____